

# CYFARWYDDIADAU GWASANAETHAU CYMORTH I DDYSGWYR (CYMRU) 2011

## 2011 Rhif 2

Gwnaed	4 Chwefror 2011
Yn dod i rym	1 Medi 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 40(1) o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009<sup>1</sup>:-

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. (1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Nid yw'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys ond i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru a chyrrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

### Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru" ("*guidance given by the Welsh Ministers*") yw canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 40(4)(b) o'r Mesur yn y dogfennau o dan y teitlau "Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr" a "Llwybrau Dysgu 14-19" sydd ar gael ar [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk);

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009;

ystyr "pobl ifanc berthnasol" ("*relevant young persons*") yw:

- (a) i'r graddau y mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn cael eu rhoi i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, y disgyblion hynny sydd wedi cyrraedd 14 mlwydd oed ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 mlwydd oed ac sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol honno;
- (b) i'r graddau y mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn cael eu rhoi i gorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, y myfyrwyr hynny sydd wedi cyrraedd 14 mlwydd oed ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 mlwydd oed ac sy'n cael y rhan fwyaf o'u haddysg yn y sefydliad hwnnw, neu o dan drefniadau a wneir gan gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw.

---

<sup>1</sup>2009 mccc 1.

## **Cyfarwyddiadau**

3. Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo cyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru a chyrrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru—

- (a) i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr i bobl ifanc berthnasol;
- (b) i sicrhau bod gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn cael eu darparu i bobl ifanc berthnasol;
- (c) i gymryd rhan yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth i ddysgwyr i bobl ifanc berthnasol;
- (ch) i gymryd sylw o'r canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru pan fyddant yn darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr, yn sicrhau bod gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn cael eu darparu neu wrth gymryd rhan yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth i ddysgwyr; a
- (d) i'w gwneud yn ofynnol i bersonau eraill roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru pan fyddant yn trefnu gyda'r personau eraill hynny i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.

## **Cyngor a gwybodaeth**

4. I'r graddau y mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn ymwneud â darparu gwasanaeth ar ffurf cyngor neu wybodaeth, rhaid i'r cyngor hwnnw ac i'r wybodaeth honno sydd i'w rhoi i bobl ifanc berthnasol:

- (a) cael eu cyflwyno mewn dull diduedd;
- (b) cael eu rhoi gan berson sydd o'r farn y bydd yn hybu budd pennaf y person ifanc dan sylw; ac
- (c) peidio â cheisio hybu, yn groes i fudd pennaf y person ifanc, buddion neu ddyheadau unrhyw ysgol, sefydliad neu berson arall.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad: 4 Chwefror 2011